



# COFNODION | MINUTES

CYFARFOD BLYNYDDOL | ANNUAL MEETING



**Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council (CCLIME)**  
**Llyfrgell Benllech Library**  
**18.5.2026 @ 19:00**

**Cynghorwyr:**  
**Councillors:**

John Humphreys (JH)  
Iwan Kellett (IK)  
Huw G Owen (HGO)  
Wenda Owen (WO)  
Ieuan Williams (IW)  
Kevin Griffiths (KG)  
Gwyneth Davies (GD)  
Rhian Mair Jones (RhMJ)  
Kevin Griffiths (KG)  
Olwen Green (OG)

**Clerc:**  
**Clerk:**

Laura Sutton (LS)

**Cyfieithydd:**  
**Translator:**

Rhiannon Elis-Williams

**1. Ethol Cadeirydd a llofnodi'r Datganiad Derbyn Swydd | To elect a Chair and for the Chair to sign the Declaration of Acceptance of Office**

Galwodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd yn unfrydol ethol Iwan Kellett yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Llofnododd y Cadeirydd y Datganiad Derbyn Swydd | *The Clerk called for nominations for the position of Chair. | It was proposed, seconded and agreed unanimously to elect Iwan Kellett as Chair for the coming year. The Chair signed the Declaration of Acceptance of Office.*

**2. Ethol Is-Gadeirydd a llofnodi'r Datganiad Derbyn Swydd | To elect a Vice-Chair and for the Vice-Chair to sign the Declaration of Acceptance of Office**

Galwodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-Gadeirydd. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd yn unfrydol ethol John Humphreys fel Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Llofnododd yr Is-Gadeirydd y Datganiad Derbyn Swydd | *The Chair called for nominations for the position of Vice-Chair. It was proposed, seconded and agreed unanimously to elect John Humphreys as Vice-Chair for the coming year. The Vice-Chair signed the Declaration of Acceptance of Office.*

**3. Ymddiheuriadau | Apologies**

Rhodri Owen (RhO)  
Sioned Wyn (SW)  
Barbara Price (BP)

#### **4. Datganiadau o Ddiddordeb | *Declarations of Interest***

Atgoffodd y Clerc yr aelodau o reolau datganiadau o ddiddordeb y Cyngor, a chadarnhaodd yr holl aelodau eu bod yn cytuno i gael eu rhwymo ganddynt ar gyfer 2026–27. Nodwyd hefyd na wnaed unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer cyfarfod Heddiw | *The Clerk reminded members of the Council's declaration of interest rules, and all members confirmed that they agreed to be bound by them for 2026–27. It was also noted that no declarations of interest were made for today's meeting.*

- Nodwyd bod datganiad o ddiddordeb ar gyfer cyfarfod 28.4.25 eitem 6.3 wedi'i gofnodi'n anghywir fel SW yn hytrach na GD. Cadarnhawyd mai GD oedd â'r buddiant perthnasol ac nad oedd gan SW fuddiant yn y mater hwnnw. Nodwyd fod y cofnod eisoes wedi'i gywiro'n ôl-weithredol er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion | *It was noted that the declaration of interest for meeting 28.4.25 item 6.3 had been incorrectly recorded as SW instead of GD. It was confirmed that GD held the relevant interest and that SW did not hold an interest in that matter. It was noted that the record had already been corrected retrospectively to ensure the accuracy of the minutes.*

#### **5. Croesawu Aelod Newydd | *Welcome New Councillor***

Croesawwyd yr aelod newydd i'r Cyngor. Rhoddwyd copi o'r Cod Ymddygiad iddi a nodwyd y bydd hyfforddiant Cod Ymddygiad yn cael ei drefnu ar y cyd. Llofnodwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan y Cynghorydd a'r Clerc | *The new Councillor was welcomed to the Council. She was provided with a copy of the Code of Conduct, and it was noted that Code of Conduct training would be arranged mutually. The Declaration of Acceptance of Office was signed by the Councillor and the Clerk.*

#### **6. Adolygu Pwyllgorau a Chofnodion Blaenorol | *Review of Committees and Previous Minutes***

##### **6.1.1- Pwyllgor Cyllid | *Finance Committee***

Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd presennol y Cyngor llawn, gyda Sioned Wyn yn parhau fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Cytunwyd hefyd y byddai Ieuan Williams, Wenda Owen a Gwyneth Davies yn parhau i wasanaethu fel aelodau o'r pwyllgor | *It was agreed that the Finance Committee would consist of the current Chair and Vice-Chair of full Council, with Sioned Wyn remaining as Chair of the Finance Committee. It was further agreed that Ieuan Williams, Wenda Owen and Gwyneth Davies would continue to serve as members of the committee.*

##### **Cylch Gorchwyl | *Terms of Reference***

Rôl y pwyllgor hwn yw sicrhau bod gwariant yn cael ei reoli yn unol â'r gyllideb, a bod balansau'n cyfateb â datganiadau banc. Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am baratoi'r gyllideb a'r praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, a gweithio'n agos gyda'r SAC/RFO i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth ariannol briodol | *The role of this committee is to ensure expenditure is managed in line with the budget and that balances correspond with bank statements. The committee is also responsible for preparing the budget and precept for the coming financial year and working closely with the RFO to ensure compliance and appropriate financial control.*

##### **6.1.2 - Pwyllgor Cwynion | *Complaints Committee***

Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Cwynion yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid | *It was agreed that the Complaints Committee would consist of the Chair, Vice-Chair and Chair of the Finance Committee.*

### **Cylch Gorchwyl | Terms of Reference**

Rôl y panel hwn yw adolygu cwynion brys a phenderfynu ar y ffordd orau i'w datrys mewn modd priodol, amserol ac yn unol â Pholisi Cwynion y Cyngor. | *The role of this panel is to review urgent complaints and determine the most appropriate and timely method of resolution in accordance with the Council's Complaints Policy.*

#### **6.1.3 - Pwyllgor AD | HR Committee**

Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor AD yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid | *It was agreed that the HR Committee would consist of the Chair, Vice-Chair and Chair of the Finance Committee.*

### **Cylch Gorchwyl | Terms of Reference**

Rôl y pwyllgor hwn yw trafod, rheoli a chefnogi gweithwyr. Tra'n cadw'r Cyngor yn ymwybodol, mae'r pwyllgor yn gyfrifol am bob agwedd ar recriwtio, cynnal adolygiadau perfformiad a sicrhau bod gweithwyr yn gweithio mewn amgylchedd diogel a chyfforddus | *The role of this committee is to discuss, manage and support employees. While keeping the Council informed, the committee is responsible for all aspects of recruitment, conducting performance reviews and ensuring employees work within a safe and comfortable environment.*

#### **6.1.4 - Pwyllgor Datblygu Prosiectau | Project Development Committee**

Penderfynwyd hefyd sefydlu Pwyllgor Datblygu Prosiectau er mwyn goruchwyllo unrhyw brosiectau mawr ar ran y Cyngor. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd presennol y Cyngor, ynghyd â Rhian Mair Jones, Ieuan Williams ac Sioned Wyn, a enwebwyd yn ei habsenoldeb | *It was also resolved to establish a Project Development Committee to oversee any major projects on behalf of the Council. It was agreed that the committee would consist of the current Chair and Vice-Chair of the Council, together with Rhian Mair Jones, Ieuan Williams and Sioned Wyn, who was nominated in her absence.*

### **Cylch Gorchwyl | Terms of Reference**

Rôl y pwyllgor hwn fydd adolygu cynlluniau prosiectau, monitro costau prosiectau, trafod syniadau a datblygiadau gyda chontractwyr neu bartneriaid perthnasol, ac i wneud argymhellion i'r Cyngor llawn. Nid oes gan y pwyllgor unrhyw awdurdod gwariant dirprwyedig, a bydd pob argymhelliad neu benderfyniad ariannol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo | *The role of this committee will be to review project plans, monitor project costs, discuss ideas and developments with relevant contractors or partners, and make recommendations to full Council. The committee holds no delegated spending authority, and all recommendations or financial decisions will be referred to full Council for approval.*

**6.2 – Cofnodion Blaenorol | Previous Minutes** Adolygwyd cofnodion y Cyfarfod Blynnyddol blaenorol ynghyd â chofnodion cyfarfod mis Ebrill. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir | *The minutes of the previous Annual Meeting together with the minutes from the April meeting were reviewed. It was proposed, seconded and agreed that they were a correct record.*

## **7. Adolygu Polisiâu a Dogfennau Allweddol | Review of Policies and Key Documents**

Adolygwyd y polisiâu allweddol a'r dogfennau llywodraethu canlynol | *The following key policies and governance documents were reviewed:*

- 7.1 Rheolau Sefydlog | *Standing Orders*
- 7.2 Rheoliadau Ariannol | *Financial Regulations*
- 7.3 Cod Ymddygiad | *Code of Conduct*
- 7.4 Polisi Cwynion | *Complaints Policy*
- 7.5 Polisi Grantiau a Rhoddion | *Grants and Donations Policy*
- 7.6 Polisi Cadw Data | *Data Retention Policy*
- 7.7 Cynllun Hyfforddi 2026–27 | *Training Plan 2026–27*

Nodwyd hefyd gofnodion o ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd i fabwysiadu a derbyn yr holl ddogfennau a adolygwyd | *Records of amendments to the Standing Orders and Financial Regulations were also noted. It was proposed, seconded and agreed to adopt and accept all reviewed documents.*

## **8. Materion y Cyngor a'r Gymuned | Council & Community Matters**

**8.1 - Adolygu Yswiriant | Insurance review** Adolygwyd adnewyddiad yswiriant y Cyngor a chytunodd yr aelodau eu bod yn hapus i adnewyddu'r yswiriant hyd at werth y dyfynbris adnewyddu a gyflwynwyd. Nodwyd hefyd fod y Clerc, er budd ariannol y Cyngor ac er mwyn sicrhau bod gwerthoedd yr asedau yn fwy cywir, yn aros am ddyfynbris diwygiedig a allai leihau'r premiwm ymhellach | *The Council's insurance renewal was reviewed and members agreed they were happy to renew the insurance up to the value of the renewal quotation presented. It was also noted that the Clerk, in the financial interests of the Council and to ensure more accurate asset values, was awaiting a revised quotation which may further reduce the premium.*

**8.2 - Mater Cyflymder Llanbeddroch | Speeding Concern** Nodwyd fod y Clerc wedi cyfarfod gyda'r preswlydd lleol i drafod ei phryderon ynghylch goryrru yn Llanbeddroch. Nodwyd fod y preswlydd yn fodlon fod y Cyngor Cymuned wedi gwrandao ar ei phryderon ac wedi gweithredu arnynt. Trefnodd y Clerc hefyd sesiwn Community Speed Watch i'w chynnal yn Llanbeddroch ar ddydd Gwener 22 Mai. Nodwyd ymhellach fod y Clerc wedi gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn adolygu'r arwyddion a'r marciau ffordd mewn perthynas â goryrru yn yr ardal | *It was noted that the Clerk had met with the local resident to discuss her concerns regarding speeding in Llanbeddroch. It was noted that the resident was satisfied that the Community Council had listened to her concerns and acted upon them. The Clerk also arranged for a Community Speed Watch session to be held in Llanbeddroch on Friday 22 May. It was further noted that the Clerk had asked the Isle of Anglesey County Council to review signage and road markings in relation to speeding within the area.*

## **9. Cyllid | Finance**

### **9.1 Trafodion Diweddar | Recent Transactions**

Dyddiad / Date	Math / Type	Disgrifiad / Description	Categori / Category	Swm / Sum	Balans
31/03/2026		BALANS TERFYNOL / FINAL BALANCE 2024-25			£6,295.00
01/04/2026	PYMT	Anglesey Masonry (Plannwr Goffa)	Expenses	-£1,620.00	£4,675.00
08/04/2026	PYMT	DH WILLIAMS (Bird Boxes)	Expenses	-£250.00	£4,425.00
13/04/2026	Credit	Repayment Plannwr Goffa	Other Income	£1,350.00	£5,775.00
15/04/2026	Credit	Mynwent   Cemetery	Other Income	£440.00	£6,215.00
16/04/2026	Credit	003417 Rent - Rhandiroedd   Allotments	Other Income	£300.00	£6,515.00
16/04/2026	d/d	Plan.com (Ffôn)	Expenses	-£24.23	£6,490.77
23/04/2026	Credit	PRECEPT #1	PRECEPT	£25,228.46	£31,719.23
23/04/2026	S/O	Cyflog y Clerc Salary	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	-£1,969.95	£29,749.28
23/04/2026	d/d	HMRC SDDS PAYE	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	-£2,121.58	£27,627.70
28/04/2026	d/d	NATWEST CC	Expenses	-£119.08	£27,508.62
29/04/2026	PYMT	EDWARDS ACCOUNTING (Credit from overpayment)	Other Income	£50.00	£27,558.62
29/04/2026	PYMT	Mencap Môn Cyfraniad   Donation	Expenses	-£100.00	£27,458.62
29/04/2026	PYMT	EDWARDS ACCOUNTING (Ffi gweinyddu pensiwn   Pension Admin fee)	Expenses	-£50.00	£27,408.62
29/04/2026	PYMT	Repayment Clerk / Office Supplies	Expenses	-£19.99	£27,388.63
29/04/2026	PYMT	Un Llais Cymru (Aelodaeth   Membership)	Expenses	-£876.00	£26,512.63
29/04/2026	PYMT	Repayment JH (Council Supplies)	Expenses	-£22.97	£26,489.66
29/04/2026	PYMT	EDWARDS ACCOUNTING (Payroll Admin Fee Annual)	Expenses	-£425.00	£26,064.66
30/04/2026	S/O	Pensiwn   Pension	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	-£491.12	£25,573.54

➤ **Balans wrth gefn / Reserve balance: £44,630.66**

Adolygwyd y trafodion diweddar a chytunwyd eu bod yn briodol ac o fewn y gyllideb. Adolygwyd a chymeradwywyd y datganiad cerdyn credyd. Adolygwyd balans y cyfrif wrth gefn a chadarnhawyd ei fod yn briodol o ystyried y datblygiad ardal chwarae mawr sydd ar y gweill. Nododd y Cyngor fod balans y cyfrif cyfredol yn uchel, a phenderfynwyd cyfarwyddo'r Clerc i drosglwyddo £17,000 i'r cyfrif wrth gefn | *Recent transactions were reviewed and agreed as appropriate and within budget. The credit card statement was reviewed and approved. The reserve account balance was reviewed and confirmed as appropriate in light of the upcoming major play area development. The Council noted that the current account balance was high and resolved to instruct the Clerk to transfer £17,000 into the reserve account.*

## 9.2 Adolygu Trefniadau Bancio | Review Banking Arrangements

Adolygwyd a chadarnhawyd trefniadau bancio'r Cyngor, a chytunwyd eu bod yn cyd-fynd â'r Rheoliadau Ariannol | *The Council's banking arrangements were reviewed and confirmed, and it was agreed that they align with the Financial Regulations.*

## 9.3 Adolygu Taliadau Rheolaidd | Review Regular Payments

Rhannwyd rhestr o daliadau rheolaidd gyda'r Cyngor ac, ar ôl cytundeb yr aelodau, llofnodwyd y rhestr gan y Cadeirydd | *A list of regular payments was shared with the Council and, following agreement by members, the list was signed by the Chair.*

## 9.4 Cadarnhau Terfyn Adran 137 | Confirmation of Section 137 Limit 2026-27

Cadarnhaodd y Clerc mai terfyn Adran 137 ar gyfer 2026–27 yw £11.60 fesul etholwr. | *The Clerk confirmed that the Section 137 limit for 2026–27 is £11.60 per elector. (2593 X £11.60 = £30,079)*

## 9.5 Cymodi Banc | Bank Reconciliation

Adolygwyd y datganiadau banc a llofnodwyd y cymodi banc gan yr Is-Gadeirydd, JH | *The bank statements were reviewed, and the bank reconciliation was signed by the Vice-Chair, JH.*

## 9.6 Cymeradwyo Taliadau/Pryniannau | Payments / Purchases for Approval

Cyflwynodd y Clerc restr o daliadau i'w cymeradwyo | *The Clerk presented a list of payments for approval:*

- Gwasanaethau Cyfieithu | *Translation Services* – £59.70
- Vinyls4U *Signage* – £291.60
- Adnewyddiad Yswiriant (hyd at) | *Insurance Renewal (up to)* – £1,932.07
- Nodwyd hefyd fod arolygiad ROSPA y parc yn ddyledus i'w adnewyddu. Cytunodd y Cyngor y gall y Clerc archebu a thalu am y gwasanaeth hwn er budd lechyd a Diogelwch, o dan bwerau Deddf lechyd y Cyhoedd 1875, adran 164 | *It was also noted that the ROSPA inspection for the park was due for renewal. The Council agreed that the Clerk may arrange and pay for this service in the interests of Health & Safety, under the powers contained within the Public Health Act 1875, section 164.*

## **10. Cynllunio | *Planning***

Nodwyd y penderfyniadau cynllunio perthnasol | *Relevant planning decisions were noted.*

## **11. Adroddiad y Cyngorydd Sir | *County Councillor Report***

Nodwyd adroddiad y Cyngorydd Sir | *The County Councillor's report was noted.*

## **12. Unrhyw Faterion Eraill | *Any Other Matters***

Ni wnaed unrhyw benderfyniadau ffurfiol o dan yr eitem hon | *No formal decisions were made under this item.*

- Nododd GD fod parcio ym maes parcio parc y plant yn dod yn broblem, a chytunwyd y dylai'r aelodau ystyried atebion posibl yn y dyfodol gan fod y maes parcio ar gyfer defnyddwyr y parc yn unig | *GD noted that parking within the children's park car park was becoming an issue, and members agreed to consider potential future solutions as the car park is intended for park users only.*
- Nododd WO y byddai'n hoffi i'r Cyngor rannu eu diolch i bob rhan o'r gymuned am yr addurniadau URDD hyfryd a welwyd ar draws yr ardal. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ychwanegu neges ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor | *WO stated that she would like the Council to share its thanks to all parts of the community for the lovely URDD decorations displayed throughout the area. It was agreed that the Clerk would add a post to the Council's social media pages.*

Diolchodd yr aelodau i JH am ei waith a'i gefnogaeth yn ystod ei flwyddyn fel Cadeirydd y Cyngor | *Members thanked JH for his work and support during his year as Chair of the Council.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 20:00 | *The meeting closed at 20:00***

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf | *Date of Next Meeting***

22 Mehefin 2026 | *22 June 2026*